



GORCHMYNION SEFYDLOG

Parthed

CONTRACTAU

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972
- ADRAN 135**

Mabwysiadwyd Mehefin 2013

CYNNWYS

Gorch. Sefydlog Rhif.		Rhif Tud.
1.	Cymhwyso a Dehongli'r Gorchmynion	3
2.	Cydymffurfiaeth â Gorchmynion Sefydlog a Chyfarwyddiaethau Ewropeaidd (GE)	4
3.	Contractau ddim uwch na £25,000	5
4.	Contractau uwch na £25,000	5
5.	Tendro Detholedig – Rhestr Ad Hoc	6
6.	Tendro Detholedig – Rhestr Sefydlog	7
7.	Gwahoddiadau i Dendro	8
8.	Tendro Agored	8
9.	Cyflwyno Tendrau	9
10.	Agor a Derbyn Tendrau	9-10
11.	Addasu Tendrau	10-11
12.	Is-gontractwyr a Chyflenwyr Enwebwyd	11
13.	Ffurflen a Chynnwys y Contractau	11-12
14.	Indemniad ac Yswiriant	12
15.	Dethol Contractwr	13
16.	Eithriadau i'r Gorchmynion Sefydlog rhain	13-14

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF 1 Cymhwyso a dehongli Gorchmynion Sefydlog

Cymhwyso

- 1.1 Nod y Gorchmynion Sefydlog rhain yw sicrhau bod yr Awdurdod yn ymrwymo i gcontractau ar gyfer cyflenwi a neu / gwaredu â nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith ar y telerau economaidd mwyaf ffafriol trwy gymhwyso'r arferion a gweithdrefnau mwyaf ethigol, cyson a thryloyw. Bydd ymrwymo i'r contractau hyn yn amodol â'r Gorchmynion Sefydlog rhain a'r Rheoliadau Ariannol ar bob adeg.
- 1.2 Mae'n rhaid glynu wrth y Gorchmynion Sefydlog rhain ar bob adeg pan fo'r Awdurdod yn ymrwymo i. gcontractau ar gyfer cyflenwi a neu / gwaredu â nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith
- 1.2 Mae'n rhaid glynu wrth Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 a phob ymddeddfiad Deddf arall.

Dehongliad

- 1.3 Ar gyfer y Gorchmynion Sefydlog rhain:

Mae "Swyddog a Awdurdodwyd" yn golygu swyddog o'r Awdurdod sydd wedi'i awdurdodi yn ei bryd i arwyddo Gorchmynion ar ran yr Awdurdod hyd at y lefel a ganiateir yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod;

Bydd hyd y term "Contract" yn berthnasol i'r holl gytundebau gan neu gyda'r Awdurdod ac un neu fwy o'r partïon ar gyfer cyflenwi neu waredu â nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith ond eithrir contractau cyflogi, neu werthu a phwrcasu neu lesio unrhyw ddiddordeb mewn tir;

Mae "Prif Swyddog Cyllid" yn golygu y swyddog benodwyd gan yr Awdurdod o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae "Mwyaf Manteisiol yn Economaidd" yn golygu y bid neu'r cynnig hwnnw pan gymerir i ystyriaeth nifer o griteria gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i bris, ansawdd, cyflawni, teilyngdod technegol, cydweddoldeb, ymarferoldeb ac effeithiolrwydd costau sydd ar y cyfan yn darparu'r canlyniad mwyaf manteisiol yn economaidd i'r Awdurdod."

Mae "Dyfnbris" yn golygu cynnig ysgrifenedig gan gyflenwr mewn ymateb i gais dderbyniwyd gan swyddog priodol o'r Awdurdod parthed y cyflenwad o / neu waredu â nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith.

Mae "Tendr" yn golygu bid wedi'i selio i gyflenwi neu dderbyn nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith na ellir ond eu haddasu a / neu eu hamrywio yn unol â darpariaethau'r Gorchmynion Sefydlog rhain;

"gwerth" contract fydd cyfanswm y gwerth ag eithrio TAW dros gyfnod llawn y contract;

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 2.
Cydymffurfiaeth â Gorchmynion Sefydlog a Chyfarwyddiaethau y Gymuned Ewropeaidd (GE)

- (1) Bydd pob contract wneir gan yr Awdurdod neu gan Bwyllgor neu swyddog sy'n gweithredu ar ei ran yn cydymffurfio â'r Gorchmynion Sefydlog rhain oni bai y gwnaed eithriad yn unol â pharagraff (4) o'r Gorchymyn hwn.
- (2) Felly mae'n rhaid cydymffurfio â Chyfarwyddiaethau a Chyfamodau y Gymuned Ewropeaidd ac ymddeddiad domestig mewn perthynas â gwaith cyhoeddus, cyflenwad cyhoeddus a chontractau gwasanaeth. (Mae'r cyfarwyddiaethau hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer hysbysebu, dewis contractwyr a dyfarnu cyflenwad y sector gyhoeddus, gwaith a chontractau gwasanaeth a lle bo'n berthnasol bydd yn goroesi dros rai gofynion y Gorchmynion Sefydlog rhain.) Bydd yr holl gontractau sy'n disgyn o fewn y Cyfarwyddiaethau rhain yn gorfod cael eu hadrodd wrth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cyn y cyflawnir unrhyw weithred.
- (3) Bydd yn amod unrhyw gontract rhwng yr Awdurdod ac unrhyw berson (nad yw yn swyddog o'r Awdurdod) pan y disgwylir iddynt oruchwylio contract ar eu rhan, mewn perthynas ag unrhyw gontract bydd o/hi yn cydymffurfio â gofynion Gorchmynion sefydlog o'r fath sy'n berthnasol i'r contractau fel petai o / hi yn Swyddog a Awdurdodwyd o'r Awdurdod.
- (4) Yr unig adeg y caniateir eithriadau o'r Gorchmynion Sefydlog â ganlyn yw trwy gyfrwng cyfarwyddyd yr Awdurdod neu Bwyllgor Awdurdodwyd ar ei ran, pan fyddant yn fodlon ei bod yn bosib cyfiawnhau yr eithriad dan amgylchiadau arbennig.
- (5) Adroddir ynghylch pob eithriad a wneir trwy gyfarwyddyd Pwyllgor lle y dirprwywyd y grym iddo i wneud contractau i'r Awdurdod.
- (6) Gwneir cofnod o unrhyw eithriad wnaed yn unol â pharagraff (3) o'r Gorchymyn hwn, os na wneir hynny yng nghofnodion yr Awdurdod, gwneir hynny yng nghofnodion y Pwyllgor y cyfeirir ato yn yr adroddiad Gorchymyn Sefydlog lle y'i gwnaed.
- (7) Bydd unrhyw gontract sy'n uwch na £50,000 yn ei gwneud yn angenrheidiol i bob un o'r tendrwy'r gael eu gwirio gan y Pennaeth Cyllid (ar ran y Prif Swyddog Cyllid) i sicrhau eu hyfywedd ariannol a gan y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol i sicrhau eu galluogrwydd technegol.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 3
Contractau ddim mwy na £25,000

- (1) Pan nad yw contract arfaethedig yn uwch na £25,000 mewn gwerth neu swm, gall y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol ymrwmo i gcontract o'r fath gyda phersonau o'r fath â ystyrir yn gymwys gan y person hwnnw ar gyfer y pwrpas dan sylw, cyn belled nad oes llai na thri dyfynbris amgen yn cael eu gwahodd gan y Cyfarwyddwr priodol, cyn ymrwmo i gcontract o'r fath.
- (2) Pan geisir dyfynbrisiau yn unol â'r Gorchymyn Sefydlog hwn agorir pob dyfynbris ar yr un pryd.
- (3) Pan fo Rhestr Safonol o Gcontractwyr â sefydlwyd dan Orchymyn Sefydlog 6 yna pan fo'n berthnasol i'r mater dan sylw yn y contract yna gwahoddir y dyfynbrisiau cystadleuol gan gcontractwyr oddi ar y rhestr honno.
- (3) Parthed contractau nad ydynt yn uwch na £5,000 mewn gwerth neu swm, gwahoddir tendrau yn unol â disgresiwn y Cyfarwyddwr priodol.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 4
Contractau sy'n uwch na £25,000

- (1) Pan fo gwerth neu swm y contract arfaethedig yn uwch na £25,000 ac mewn unrhyw achos arall lle mae'r Awdurdod neu Bwyllgor priodol yn penderfynu, bydd contractwyr yn cael eu dethol gan y Cyfarwyddwr priodol trwy gyfrwng un o'r dulliau canlynol:
 - (i) Tendro dewisol ad-hoc dan Orchymyn Sefydlog 5
 - (ii) Tendro dewisol gan gcontractwyr cymeradwy dan Orchymyn Sefydlog 6
 - (iii) Tendro cystadleuol agored trwy gyfrwng hysbyseb dan Orchymyn Sefydlog 8
- (2) Mewn unrhyw achos lle mae dyfarnu contract yn seiliedig ar griteria yn hytrach na phris yn unig, h.y. y mwyaf manteisiol yn economaidd i'r Awdurdod, penderfynir ar y criteria dethol a'u trefn blaenoriaeth cyn y cyflwynir y gwahoddiad i dendro ac fe hysbysir pob contractwr gaiff eu gwahodd i fidio ynghylch y criteria hwnnw.
- (3) Cyn y gwahoddir Tendrau ar gyfer unrhyw dendr sy'n uwch na £25,000 mewn gwerth bydd y Prif Weithredwr yn cael amcanbris o gostau tebygol cyflawni'r gwaith gan y Cyfarwyddwr priodol .

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 5
Tendro Detholiadol – Rhestr Ad Hoc

- (1) Bydd y Gorchymyn Sefydlog hwn yn berthnasol pan fo'r Awdurdod neu Bwyllgor a awdurdodwyd ar ei ran, pan fo'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol, tra'n cadw'r pwnc, y pwrpas a gwerth y contract dan sylw, wedi penderfynu y dylid rhoi'r gwahoddiad i dendro am contract i rai neu i bob un o'r personau neu gyrff sydd wedi ymateb i'r rhybudd cyhoeddus.
- (2) Ar gyfer pwrpasau'r Gorchymyn Sefydlog hwn, rhoddir rhybudd cyhoeddus:
- (a) ar wefan yr Awdurdod:
 - (b) pan fo'r amcanbris o'r swm neu'r gwerth yn uwch na £50,000 ar wefan Buy4Wales neu wefan amgen a ystyrir yn addas gan y Cyfarwyddwr priodol neu mewn o leiaf un papur newydd neu newyddlen sy'n cylchredeg ymysg pobl neu gyrff o'r math sy'n ymgymryd â chontractau o'r fath; ac
 - (c) ar ddisgresiwn yr Awdurdod neu'r Pwyllgor priodol Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol i bawb neu i nifer detholedig o bersonau neu gyrff yn y rhestr sy'n cael ei chynnal o dan Gorchymyn Sefydlog 6.
- (3) Bydd y rhybudd cyhoeddus yn:
- (a) gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan bersonau neu gyrff â diddordeb, i'w gwahodd i dendro;
 - b) dynodi amser penodol, fydd ddim llai na 10 diwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd am y tro cyntaf, erbyn pryd y dylid cyflwyno ceisiadau i'r Awdurdod; a
 - (c) manylu pa wybodaeth sydd ei angen yn yr hysbyseb yn enwedig;
 - 1. natur a phwrpas y contract
 - 2. Y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer dethol:
 - (a) Gwybodaeth sy'n benodol i'r contract,
 - (b) Manylion o alluogrwydd a phrofiad technegol y sawl sydd â diddordeb,
 - (c) Manylion sefyllfa ariannol y sawl sydd â diddordeb neu;

ddaparu manylion lle gellir cael gafael ar Femorandum Gwybodaeth a/neu Holiadur Cyn Cymhwyso yn amlinellu'r gofynnion:
- (4) Wedi i'r cyfnod penodol yn y rhybudd cyhoeddus ddod i ben bydd y gwahoddiadau i dendro yn cael eu gyrru at:
- (a) Ddim llai na 3 pherson neu gorff a ymgeisiodd i gael eu dethol i dendro, yr ystyrir eu bod yn addas yng nghyd destun y wybodaeth ddarparwyd ym mharagraff 3(c) uchod;
 - (b) Pan fo llai na 3 pherson neu gorff wedi gwneud cais neu y'i ystyrir yn addas, y personau neu y gyrff hynny yr ystyrir eu bod yn addas. Fel arall, trefnir i'r rhybudd gael ei redeg eto o'r newydd.
- (5) Gellir cyflwyno ceisiadau i gael eich cynnwys ar y rhestr Ddethol Ad Hoc trwy ddanfon â llaw, yn y post, neu drwy gyfrwng ffacs neu e-bost.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 6
Tendro Detholiadol – Rhestr Sefydlog

- (1) Bydd y Gorchymyn Sefydlog hwn yn berthnasol pan fo'r Awdurdod neu Bwyllgor a awdurdodwyd ar ei ran mewn perthynas â'r pwnc dan sylw a phan fo'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol, gan gadw'r pwnc, y pwrpas a gwerth y contract dan sylw (cyn belled nad yw hynny yn fwy nac unrhyw drothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) sy'n berthnasol o bryd i'w gilydd) wedi penderfynu y dylai'r gwahoddiadau i dendro gael eu cyfyngu i'r personau neu'r cyrff a fydd a'u henwau wedi eu cynnwys ar y rhestr a lunir ac a gaiff ei chynnal i'r perwyl hwnnw.
- (2) Bydd y rhestr yn:
 - (a) cael ei llunio a'i chynnal gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
 - (b) dangos, mewn perthynas ag unrhyw berson neu gorff enw'r sawl sydd wedi'i gynnwys, categorïau'r contract a'r gwerth neu'r symiau parthed y categorïau rheiny y'i cymeradwywyd yn gyffredinol; a
 - (c) bydd yn destun monitro parhaus gan swyddogion, gan gynnwys agweddau ariannol a thechnegol, yn unol â chynllun manwl o drefniadau, fel ei fod yn caniatáu pennu galluogrwydd unigol cyfredol unrhyw berson neu gorff i dendro ar lefel benodol o waith.
- (3) Fe all y Prif Weithredwr wahardd contractwr oddi ar y rhestr pe profi'r bod y contractwr hwnnw yn un anfodddhaol neu os na all gwrdd â gofynion y contract. Bydd yn rhaid cofnodi pob gwaharddiad o'r fath yn y Gofrestr.
- (4) O leiaf 4 wythnos cyn i'r rhestr gael ei llunio, cyhoeddir rhybuddion yn gwahodd rhai i gael eu cynnwys ynddi ar wefan yr Awdurdod:
- (5) Bydd y rhestr yn cael ei hysbysebu bob dwy flynedd ar wefan yr Awdurdod, ac fe ystyrir ymgeiswyr newydd i'w cynnwys ar y rhestr trwy gyfrwng cais ysgrifenedig ar unrhyw adeg. Hysbysir pawb sydd â diddordeb mewn tendro o'r weithdrefn ar gyfer cael eich derbyn oddi ar y Rhestr Safonol ac ynghylch y weithdrefn o gael eich dethol oddi ar y rhestr honno ar gyfer contract penodol.
- (6) Bydd Swyddogion yn trefnu bod gwahoddiadau i dendro am contract yn cael eu gyrru at:
 - (a) ddim llai na tri cwmni sydd wedi'u cynnwys ar y rhan berthnasol o'r rhestr sefydlog sydd wedi datgan diddordeb mewn cyflwyno tendr;
 - (b) pob cwmni, lle mae llai na thri cwmni wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer contract o'r categorïau a'r swm perthnasol.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 7
Gwahoddiadau i Dendro

- (1) Bydd yn rhaid i Wahoddiadau i Dendro gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- (a) disgrifiad o (manyleb) o'r Gwaith, Nwyddau neu Wasanaethau i'w cyflawni / cyflenwi gyda dyddiad erbyn pryd y dylid cyflawni'r gwaith.
 - (b) Telerau ac amodau priodol (gan gynnwys Tystysgrifau parthed Canfasio a Thendro Cydgynllwyngar)
 - (c) Ffurflen ar gyfer Tendro.
 - (d) Y criteria i'w defnyddio wrth ddyfarnu contract.
 - (d) Y Gofynion ar gyfer tendro mewn cydymffurfiaeth â Gorchymyn Sefydlog 8
 - (e) Yr amser a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn Tendrau.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 8
Tendro Agored

- (1) Bydd y Gorchymyn Sefydlog hwn yn berthnasol pan fo'r Awdurdod neu Bwyllgor sydd wedi'i awdurdodi ar ei ran er mwyn hynny neu'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol , gan gadw'r pwnc, y pwrpas a gwerth y contract dan sylw, wedi penderfynu y dylid cael tendrau am gontract trwy gyfrwng cystadleuaeth agored. Ymhob achos lle na wnaed penderfyniad ymlaen llaw, fe all y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr benderfynu defnyddio'r dull hwn o dendro.
- (2) Rhoddir rhybudd cyhoeddus o o leiaf 15 diwrnod gwaith ar wefan yr Awdurdod a phan fo'r contract yn fwy na £50,000, ar Buy4Wales neu safle amgen arall a ystyrir yn briodol gan y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr neu mewn un neu fwy o bapurau newydd neu newyddlenni sy'n cylchredeg ymysg personau neu gyrff sy'n ymgymryd â chontractau o'r fath.
- (3) Bydd y rhybudd cyhoeddus yn:
- (a) Mynegi natur a phwrpas y contract, datgan lle gellir cael rhagor o fanylion,
 - (b) Gwahodd tendrau ar gyfer ei gyflawni a datgan y dyddiad a'r amser cau pan mae'n rhaid derbyn y tendrau
 - (c) Manylu'r gofynion ar gyfer cyflwyno Tendr.
 - (d) Manylu'r criteria dyfarnu, os yn berthnasol a;
 - (e) Manylu pa ran o'r wybodaeth ganlynol sydd ei hangen:
 - (i) Manylion gallu technegol a phrofiad y sawl sydd â diddordeb
 - (ii) Manylion sefyllfa ariannol y sawl sydd â diddordeb

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 9
Cyflwyno Tendrau

- (1) Felly pe gwahoddir tendr yn unol â'r Gorchymynion Sefydlog rhain, bydd pob gwahoddiad yn nodi na chaiff unrhyw dendr ei dderbyn onibai ei fod wedi'i amgau mewn amlen blaen wedi ei

chyfeirio at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i selio, sydd â'r geiriad "Tendr Peidiwch a'i Agor" arni – gyda'r pwnc mae'n berthnasol iddo wedi'i nodi arno wedyn, ond heb unrhyw enw na farc arall sy'n dangos pwy sydd wedi ei gyrru.

- (2) Cedwir y tendrau yng ngwarchodaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol hyd y dyddiad a'r amser a benwyd ar gyfer eu hagor.
- (3) Ni dderbynnir ac ni ystyrir ychwaith o dan unrhyw amgylchiadau unrhyw dendr ddaw i law wedi i'r dyddiad a'r amser fanylwyd yn y gwahoddiad ddod i ben.
- (4) Bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnal rhestr o'r holl dendrau a dderbyniwyd.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 10 Agor a Derbyn Tendrau
--

- (1) Bydd y tendrau a ddaw i law dan Orchymyn Sefydlog 5, 6 neu 8 yn cael eu hagor wedi'r dyddiad a'r amser cau gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol neu'r cynrychiolydd awdurdodwyd i weithredu yn ei le a hynny ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr neu ei gynrychiolydd a awdurdodwyd.
- (2) Cofnodir pob tendr sy'n dod i law.
- (3) Dim ond y tendr isaf os mai'r Awdurdod sydd yn talu neu tendr uchaf os mai'r Awdurdod sydd yn derbyn tâl y gaiff y Swyddog a Awdurdodwyd ei dderbyn.
- (4) Caiff y Cyfarwyddwr priodol dderbyn un heblaw y tendr isaf pan:
 - (a) Fo'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol o'r farn bod y tendr yn rhinwedd y criteria (yn hytrach na'r pris) a osodir yn y Gwahoddiad i Dendro yr un sydd fwyaf manteisiol yn economaidd i'r Awdurdod. Petae y gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y tendr isaf a'r un argymhellir ei gymeradwyo yn fwy na 20% o werth y tendr isaf ni dderbynnir y tendr heb ganiatâd y Prif Swyddog Cyllid mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Awdurdod. Mewn achos o'r fath cyflwynir adroddiad ar y mater er gwybodaeth i'r cyfarfod nesaf o'r Awdurdod neu i'r Pwyllgor awdurdodwyd yn ei bryd.
 - (b) Fo'r nwyddau, y deunyddiau neu'r gwasanaeth y tenderwyd ar eu cyfer ddim ar gael ar yr amser pan fo eu hangen gan yr Awdurdod ac ym marn y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol, oherwydd nad ydynt ar gael pan fo eu hangen yna fe ellid yn rhesymol ystyried tendr arall a gyflwynwyd fel y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd.
- (5) Bydd cofrestr o'r holl gontractau dros £25,000 mewn gwerth yn cael ei chynnal a'i chadw gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd rhestr o'r fath, ar gyfer pob contract, yn manylu enwu'r contractwr, y gwaith i'w gyflawni neu y nwyddau i'w cyflenwi a gwerth y contract. Bydd y rhestr yn agored i'w harchwilio gan unrhyw aelod o'r Awdurdod.
- (6) Pan fo'n berthnasol, dylai'r gymhariaeth rhwng y gwahanol dendrau gynnwys y goblygiadau yn

nhermau cyfalaf a refeniw.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 11
Addasu Tendrau

(1) **Contractau Peirianeg Sifil**

- (a) Bydd pob tendr gyflwynir yn cael eu gwirio'n rhifyddedegol am estyniadau a symiant ac fe gânt eu cywiro, os yw hynny'n angenrheidiol. Bydd symiant yr holl ffigyrau yn cael eu hystyried fel swm y tendr. Ni chyfeirir at y tendrwr o gwbl;
- (b) pe datgelir camgymeriadau neu wahaniaethau pan fo'r tendrau yn cael eu harchwilio a rheiny'n effeithio ar swm y tendr mewn tendr fyddai' fel arall yn llwydiannus, yna rhoddir manylion camgymeriadau neu anghysonderau o'r fath i'r tendrwr fel y caiff ef/hi y cyfle i gadarnhau ei gyfraddau ef/hi neu dynnu ei dendr o/hi yn ôl.

(2) **Contractau ar Bob Ffurf Arall**

- (a) Defnyddir y trefniadau canlynol pan fo archwilio tendrau yn datgelu camgymeriadau neu anghysonderau mewn un neu fwy o'r tendrau mwyaf cystadleuol a fyddai'n effeithio ar y tendr a brisiwyd. Bydd y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol yn penderfynu os gofynnir i'r tendrwr cystadleuol unai:
 - gydfynd â'r tendr gwreiddiol, gyda'r opsiwn o dynnu nôl; neu
 - gydfynd â'r tendr gwreiddiol gyda'r opsiwn i'w adolygu wedi i'r camgymeriadau anghysonderau dilys gael eu cywiro.

Petai'r tendrwr yn tynnu'n ôl, neu bellach, pe na bai hwn yw'r tendr mwyaf cystadleuol, yna archwilir y tendr nesaf yn ôl y drefn gystadleuol a delir ag o yn yr un modd.

- (b) Pe bai'r tendrwr yn dewis cydfynd â'i dendr gwreiddiol yna ychwanegir ardystiad i'r anfonebau brisiwyd yn dangos bod yr holl gyfraddau neu brisiau (ag eithrio'r eitemau craidd, y treuliau annisgwyl, costau craidd a symiau dros dro) roddwyd i mewn gan y tendrwr i'w hystyried fel gostyngiad neu gynyddiad o'r un maint a chyfanswm a gywiriwyd o eitemau a brisiwyd sy'n uwch neu'n anigonol o eitemau o'r fath. Arwyddir yr ardystiad gan y ddau barti sy'n rhan o'r contract.
- (c) Pe rhoddir caniatâd i'r contractwr addasu'r tendr er mwyn cywiro'r camgymeriadau a'r anghysonderau, a'i fod yn dewis gwneud hynny, yna bydd ardystiad priodol yn cael ei ychwanegu i'r anfonebau gan y ddau barti sy'n rhan o'r contract.

(3) Fe all y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol gymeradwyo diwygio tendr wedi iddo ddod i law a chyn iddo gael ei dderbyn er mwyn iddo gael ei newid er mantais i'r Awdurdod cyn belled nad yw'r newid os y'i gwneir i bob tendr ddim yn gwneud unrhyw dendr arall yr un sydd fwyaf manteisiol yn economaidd. Bydd yn rhaid cadw cofnod o newid o'r fath yn y gofrestr.

(4) Lle mae'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol yn ystyried ei bod er lles yr

Awdurdod, fe all negodi gyda'r tendrwr isaf neu'r tendrwr hwnnw sydd a'i dendr dan ystyriaeth ar gyfer ei dderbyn o dan Orchymyn Sefydlog 10 uchod, gyda'r nod o ostwng gwerth y tendr, cyn belled â bod y newid hwnnw pe'i gwneir i'r holl dendrau fel canlyniad ddim yn achosi i unrhyw dendr arall fod yr un mwyaf manteisiol yn economaidd a bydd manylion hwnnw a datganiad o resymau yn cael eu cynnwys yn y Gofrestr.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 12
Is-gontractwyr a Chyflenwyr a Enwebwyd

Pan fo is-gontractwr neu'r cyflenwr i'w enwebu i brif gontractwr, bydd y darpariaethau canlynol yn dod i rym:

- (1) Pan nad yw swm yr is-gontract a amcangyfrifwyd neu pan fo'r amcangyfrif o werth y nwyddau i'w cyflenwi gan y cyflenwr enwebwyd ddim yn uwch na £25,000 yna, gwahoddir dyfynbrisiau ar yr enwebiad yn unol a Rheol Sefydlog 3.
- (2) Pan fo'r swm amcangyfrifwyd ar gyfer yr is-gontract neu'r amcangyfrif o werth y nwyddau i'w cyflenwi gan y cyflenwr a enwyd yn uwch na £25,000 yna, gwahoddir tendrau yn unol â Gorchymyn Sefydlog 5, 6 neu 8 gan ddibynnu ar yr achos.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 13
Ffurf a Chynnwys Contractau

- (1) Bydd pob contract yn:
 - (a) ysgrifenedig ac wedi'i arwyddo gan swyddog o'r Awdurdod sydd wedi'i awdurdodi'n ddilys i wneud hynny ar ei ran;
 - (b) manylu:
 - (i) y nwyddau, y deunyddiau neu wasanaethau i'w cyflenwi a'r gwaith i'w gyflawni;
 - (ii) y pris i'w dalu ynghyd â datganiad parthed swm unrhyw ddisgownt (iau) neu ddidyniad (au);
 - (iii) y cyfnod (au) y disgwylir i'r contract gael eu cyflawni ynddynt
 - (iv) unrhyw iawndal ganfyddwyd / penodedig sy'n daladwy gan y contractwr os oes angen darpariaeth o'r fath yn unol â pharagraff (1) (c) isod;
 - (v) y manylion a'r safonau i'w cymhwyso i'r contract;
 - (vi) monitro'r contract, ynghyd â rheolaethau dros is-gontractwyr;
 - (vii) a thelerau ac amodau eraill o'r fath fel y gellid ei gytuno rhwng y partion;
 - (c) lle, wedi ymgynghoriad gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Prif Swyddog Cyllid, mae'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol yn ystyried ei fod yn

briodol bydd darpariaeth ar gyfer iawndal ganfyddwyd/penodedig neu rhyw ffurf diogelu perfformiad digonol arall; a

(c) cydymffurfio gyda gofynion statudol gan gynnwys rheoliadau a darpariaethau Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle mewn grym.

(2) Bydd cymal wedi'i gynnwys ymhob contract ysgrifenedig, yn ychwanegol i amodau sy'n cynnwys y materion fanylir yn eu cylch ym mharagraff 1(b) uchod, cymal fydd hwnnw fydd yn grymuso'r Awdurdod i ganslo'r contract ac i adennill swm unrhyw golled sy'n digwydd oherwydd yr angen i ganslo, os yw'r contractwr wedi cynnig, neu wedi rhoi, neu wedi cytuno i roi i unrhyw berson, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobwr am wneud, neu am beidio â gwneud unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu gyflawni contract, neu unrhyw gontract arall gyda'r Awdurdod, neu, am ddangos neu am ymatal rhag dangos ffafriaeth, neu anffafriaeth, i unrhyw berson mewn perthynas â'r contract gyda'r Awdurdod; neu os cyflawni'r y weithred gan unrhyw berson a gyflogir ganddo ef/hi neu sy'n gweithredu ar ei ran ef/hi (os yw'n wybyddus neu'n anwybyddus i'r contractwr), neu, pe bai'r contractwr, mewn perthynas ag unrhyw gontract gyda'r Awdurdod, neu unrhyw berson gyflogir ganddo ef/hi, neu unrhyw berson sy'n gweithredu ar ei ran o/hi, wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, neu, sydd wedi rhoi ffi neu wobwr, sy'n drosedd i'w dderbyn o dan Adran 117(2) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 14
Indemniad ac Yswiriant

Mewn unrhyw gontract ar gyfer cyflawni unrhyw waith neu ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau bydd yn ofynnol i'r Contractwr indemnio'r Awdurdod rhag:

- (a) unrhyw hawliad a all gael ei wneud parthed Atebolrwydd y Cyflogwr yn erbyn yr Awdurdod neu'r contractwr gan unrhyw weithiwr neu gontractwr neu is-gontractwr wrth gyflawni'r gwaith;
- (b) unrhyw hawliad am niwed corfforol neu ddifrod i eiddo trydydd parti;

a bydd y contractwr yn, cyn cychwyn unrhyw gontract, yn cynhyrchu tystiolaeth ddigonol o fodolaeth yswiriant yn erbyn hawliadau o'r fath i'r Cyfarwyddwr priodol .

GORCHYMYN SEFYDLOG RHIF. 15
Dewis Contractwr

- (1) Fe fydd yn ofynnol gan yr Awdurdod gan ddal sylw at destyn a gwerth y contract bod y contractwr yn gallu rhoi sicrhad digonol a'i fod yn gallu dangos ei fod yn addas i gwblhau contract o'r fath a'i allu i gydymffurfio â thelerau'r contract gan gynnwys darparu ble'n briodol:
- (i) manylion o'r cefndir a'r gallu i gyflawni'r contract gan gynnwys perthnasau neu ymrwymiad â chontractwyr eraill er mwyn sicrhau masnachu teg;
 - (ii) gwiriadau ariannol priodol, cyfeiriadau bancwyr, datganiadau o gyfrifon, geirada ayb hyd boddhad y Prif Swyddog Cyllid,
 - (iii) manylion cofnod gwaith blaenorol;
 - (iv) tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd y cyflogwr i'r cyhoedd;
 - (v) bond perfformiad neu warant cwmni rhiant os gwneir cais am hynny;
 - (vi) tystiolaeth o ymrwymiad a threfniadau i sicrhau safonau boddhaol o ran iechyd, diogelwch a lles;
 - (vii) manylion unrhyw gofrestr gyda chorff rheoleiddio a gydnabyddir yn genedlaethol neu gorff Ewropeaidd cyfatebol sy'n briodol i'r gwaith ac unrhyw gynlluniau gwarant ynghlwm;
 - (viii) tystiolaeth o gymwysterau'r gweithlu a statws goruchwylwyr mewn perthynas â'u haddasrwydd a'u gallu i gyflawni'r contract.

Gorchymyn Sefydlog Rhif. 16

Eithriadau i'r Gorchymynion Sefydlog rhain

Does dim angen Tendrau na Dyfynbrisiau yn y sefyllfaoedd canlynol:

- (1) Yng nghyd destun contractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau nwyddau neu ddefnyddiau:
- (i) mae'r nwyddau neu'r deunyddiau yn eitemau hawl perchen priodol neu fe'u gwerthir ddim ond am bris penodol gosodedig a does dim dewis boddhaol arall ar gael
 - (ii) mae prisiau'r nwyddau neu'r deunyddiau wedi'u rheoli'n gyfan gwbl gan sefydliadau neu orchymyn llywodraeth a does dim dewis amgen arall ar gael
 - (iii) am resymau eraill, ni fyddai yna gystadleuaeth ddilys
 - (iv) ar gyfer gwasanaethau y Cwnsel
 - (v) mae'r gwasanaethau neu'r nwyddau i'w darparu neu eu cyflenwi yn greadigol o ran natur a sail greiddiol y ddyfarniad yw gweledigaeth greadigol neu artistig yr unigolyn.
- (2) Mae'r gwaith sydd i'w gyflawni, neu nwyddau, neu'r deunyddiau, i'w cyflenwi, yn cynnwys estyniad i contract sy'n bodoli'n barod (dylid adrodd am estyniad o'r fath i'r Awdurdod) pan na ellir ond cyflawni hynny yn foddhaol gan y contractwr gwreiddiol /y contractwr sy'n bodoli'n barod.
- (3) Mae'r contract ar gyfer cyflawni gwaith neu gyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau ardystsiedig gan y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol fel un sydd ei angen ar gymaint o frys fel na ellid caniatáu gwahodd tnedrau; byddai tystysgrif o'r fath angen ei adrodd i'r Prif swyddog Cyllid yng nghyfarfod nesaf o'r Awdurdod.

- (4) Mae'r contract ar gyfer cyflenwi nwyddau sydd wedi eu defnyddio neu ddeunyddiau ail law lle mae'r Cyfarwyddwr priodol yn fodlon bod y farchnad ar gyfer nwyddau neu ddeunyddiau fel y buasai'n afresymol tendro ar eu cyfer neu lle mae'r amser sydd ei angen i gwblhau'r broses tendro yn debygol o arwain at golli cyfle i bwrcasu eitem wedi'i ddefnyddio neu eitem ail law.
- (5) Ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau neu waith mewn sefyllfaoedd lle mae'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr priodol dan sylw a'r Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn fodlon bod rhesymau gwasanaeth cyfiawn am beidio tendro i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, wasanaethau neu waith a lle maent yn fodlon na fydd anfantais economaidd i'r Awdurdod fel canlyniad o beidio a thendro. Bydd dyfarniad contractau o'r fath yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf o'r Awdurdod neu i'r Pwyllgor awdurdodwyd yn briodol.
- (6) Gwahoddwyd tendrau ar ran unrhyw gonsortiw, gydweithrediad, neu gorff tebyg, y mae'r Awdurdod yn aelod ohono, yn unol ag unrhyw ddull fabwysiadwyd gan gorff o'r fath. Mewn sefyllfa fel y soniwyd amdani ynghynt pan y gwahoddir tendrau, y mae y dull o ddanfôn, agor a derbyn y tendrau hyn yn cydymffurfio â darpariaethau y Gorchmynion Sefydlog rhain, heblaw pan fo'r darpariaethau hyn yn anghyson gydag unrhyw ddull y'i defnyddir i ddelio gyda'r tendrau a gaffaelir ar ei ran.